



Astudiaeth achos 1: Cynnydd o 30% yn elw cwmni o Gaerdydd ar ôl dechrau recriwtio pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol

Mae busnes o Gaerdydd, sy'n arbenigo mewn hyfforddiant a gwasanaethau diogelwch, yn dweud bod eu helw wedi cynyddu 30% ers rhoi cyfle i 5 o weithwyr ifanc drwy raglen gyflogaeth Llywodraeth Cymru.



Recriwtiodd Dave Corbett, Prif Swyddog Gweithredol [Rubicon Wales](#), bump o'i weithlu drwy raglen Twf Swyddi Cymru i lenwi bylchau sgiliau ym maes marchnata a gweinyddu.

Mae Twf Swyddi Cymru yn caniatáu i gyflogwyr gynnig cyfle gwaith wedi'i ran-ariannu am chwe mis i bobl ifanc, a chreu rolau newydd o fewn eu sefydliad. Mae'r rhaglen wedi'i hariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn cael cyflog ac yn elwa ar brofiad gwaith hanfodol a datblygu sgiliau wrth weithio, yn ogystal â helpu busnesau Cymreig i ffynnu.

Mae Mr Corbett wedi defnyddio'r rhaglen yn llwyddiannus i roi cyfle i staff newydd reoli gweithgareddau marchnata, y cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau, ac mae hyn yn talu ar ei ganfed iddo nawr. Ym mis Mai, enwyd y cwmni yn "Gyflogwyr Delfrydol" gan y darparwr hyfforddiant Educ8.

Meddai'r entrepreneur: "Mae Twf Swyddi Cymru wedi fy helpu i roi hwb i musnes ac mae'r staff rydym wedi'u cyflogi drwy'r rhaglen wedi gweddwid y cwmni. Er enghraifft, mae James Cavanagh, ein rheolwr marchnata, wedi datblygu ein strategaeth a'n presenoldeb ar-lein fel ein bod bellach mewn sefyllfa i allu gweithredu yn Kuwait a Libya.

“Nid yn unig hynny, mae ein rheolwr swyddfa Brooke Langton-Cryer yn gyfrifol am sicrhau ein bod wastad yn gweithredu i'r safonau uchaf, ac o ganlyniad, rydym bellach wedi sicrhau'r dystysgrif rheoli ansawdd ISO 9001.

“Mae ein tîm yn fedrus iawn ac rwy'n falch iawn ein bod wedi gallu defnyddio eu doniau i hybu ein busnes ac, yn llythrennol, mynd i fannau oedd yn ymddangos yn amhosib i ni.”

Dyweddodd Brooke, o Lantrisant, fod Twf Swyddi Cymru wedi rhoi hwb i'w gyrfa ac wedi rhoi cyfleoedd sy'n brin iawn i bobl o'i hoedran.

Dyweddodd y ferch 18 oed: “Ers i mi ddechrau ar raglen Twf Swyddi Cymru yma yn Rubicon Wales rydw i wedi cael y cyfle i ddysgu cymaint o sgiliau newydd. Mae fy nhasgau dyddiol yn amrywio o redeg y swyddfa, trefnu pwy sy'n mynd ar gyrsiau, i gadw mewn cysylltiad â chymunedau a rhwydweithio mewn ffeiriau gyrfaedd a chymunedol.

“Rwyf wedi magu llawer iawn o hyder ac yn teimlo'n llawer mwy cyfforddus yn siarad â phobl ar y ffôn a chyflawni tasgau cyffredinol mewn amgylchedd busnes, a doeddwn i erioed wedi gwneud hynny o'r blaen. Ar yr un pryd mae'n rhoi'r cyfle sydd ei angen i bobl fel Brooke roi'r cam cyntaf ar ysgol y byd gwaith a dangos eu potensial enfawr.”

Meddai Julie James, y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth: “Mae Twf Swyddi Cymru yn gyfle delfrydol i bobl ifanc 16-24 oed abl, awyddus a pharod i weithio i roi sbardun i'w gyrfa ac ennill sgiliau a phrofiad gwerthfawr yn y gweithle. Ein nod yw gofalu bod pawb sy'n gymwys ar gyfer y rhaglen yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael.

“Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gyflenwi mwy o swyddi gwell i'n gwlad, trwy gyfrwng economi cryfach a thecach, ac mae Twf Swyddi Cymru yn galluogi busnesau fel Rubicon Wales i dyfu, sy'n newyddion da i economi Cymru'n ehangach. Ar yr un pryd, mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc fel Laura gamu i fyd gwaith a dangos eu potensial aruthrol.”

Er mwyn manteisio ar Twf Swyddi Cymru, rhaid i bobl ifanc 16 ac 17 oed fynd i swyddfa Gyrfa Cymru, a dylai rhai 18-24 oed gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith.

I gael rhagor o wybodaeth am raglen Twf Swyddi Cymru a'r cyfleoedd diweddaraf, ewch i www.gyrfacymru.com, dilynwch [@jobsgrowthwales](https://twitter.com/jobsgrowthwales) ar Twitter neu chwiliwch am [TwfSwyddiCymru](https://www.facebook.com/TwfSwyddiCymru) ar Facebook. Gall cyflogwyr ddysgu mwy a mynegi diddordeb trwy fynd i www.busnescymru.llyw.cymru/porthsgiliau.